

TAG ADDYSG GORFFOROL

CANLLAWIAU I UNEDAU PE2

Teitl y Cynnwys: Dulliau Cyfarwyddyd

Pwyntiau allweddol

- Gwybod gwahanol ddulliau cyfarwyddyd
- Deall sut a phryd y dylid eu defnyddio

Mae **cyfarwyddyd** (*guidance*) yn cyfeirio at unrhyw wybodaeth a roddwn i ddysgwyr i'w helpu nhw i ddatblygu eu sgiliau. Mae sawl ffactor yn effeithio ar y math o gyfarwyddyd a ddefnyddir:

- Cyfnod dysgu'r unigolyn – gwybyddol, cysylltiadol neu ymreolaethol.
- Natur y gweithgaredd – cymhlethdod y sgil, diogelwch ayb.
- Hoffterau unigol – mae gan y rhan fwyaf o bobl arddulliau ffafriedig o ddysgu e.e. mae'r rhan fwyaf o bobl yn hoffi gweld sut mae'r sgil maen nhw'n ei ddysgu yn edrych.

Mae 3 math sylfaenol o gyfarwyddyd y gall athro/hyfforddwr eu defnyddio i drosglwyddo gwybodaeth:

1. **GWELEDOL** – fe'i defnyddir ym mhob cyfnod dysgu, ond mae'n arbennig o werthfawr yn y cyfnod gwybyddol. Mae enghreifftiau'n cynnwys **ARDDANGOS** – mae hyn yn cynnwys arddangos corfforol gan athro/hyfforddwr neu berfformiwr deheuig arall, cymhorthion gweledol e.e. siartiau yn dangos camau sgil, fideo o berfformiad 'delfrydol' ac addasu'r arddangosiad e.e. rhoi marcwyr ar y llawr wrth addysgu ergyd osod o'r bwrdd i sicrhau rhoi'r traed yn y lleoedd iawn. Y pwynt pwysig yma yw bod yn rhaid i'r arddangosiad fod yn gywir fel y bydd y dysgwr yn llunio'r darlun cywir.
2. **GEIRIOL** – fe'i defnyddir lawer gan athrawon/hyfforddwyr i egluro'r dasg a disgrifio'r gweithredoedd. Fe'i defnyddir yn effeithiol hefyd i amlygu arwyddion pwysig perfformiad e.e. cyfrif y curiadau allan yn uchel mewnawns. Fe'i defnyddir gan amlaf ar y cyd â chyfarwyddyd gweledol.
3. **LLAW/MECANYDDOL** – mae'r math hwn o gyfarwyddyd yn cynnwys cyswllt/cynnal corfforol. Yn aml fe'i defnyddir pan fydd elfen o berygl e.e. defnyddio harnais diogelwch mewn trampolinio.

MANTEISION/ANFANTEISION

MATH O GYFARWYDDYD	MANTEISION	ANFANTEISION
GWELEDOL	Gall y dysgwr weld perfformiad cywir. Gall arddangosiadau gael eu rhoi eto. Gyda fideo mae 'arafu lluniau' yn gallu helpu unigolyn i ddysgu sgîl yn fanwl gywir. Mae'n ddefnyddiol ym mhob cyfnod dysgu. Mae'n helpu i lunio delwedd feddyliol o berfformiad cywir.	Problemau os nad oes delwedd gywir ar gael.
GEIRIOL	Gall cwestiynu effeithiol gan hyfforddwyr/athrawon wella dysgu a dealltwriaeth. Fe'i cyfunir yn effeithiol â chyfarwyddyd gweledol i roi darlun mwy manwl gywir i'r dysgwr. Mae'n ddi-oed.	Mae rhai cyfarwyddiadau geiriol yn rhy hir a chymhleth – yn aml mae gan ddysgwyr gyfnodau canolbwyntio byr (gallu cyfyngedig i brosesu gwybodaeth). Ni all rhai symudiadau gael eu hegluro'n fanwl gywir.
LLAW/MECANYDDOL	Mewn gweithgareddau a allai fod yn beryglus gellir ei ddefnyddio i atal y dysgwr rhag gwneud symudiadau anghywir. Mewn sefyllfaoedd peryglus gall helpu perfformiwr i ddelio ag ofn drwy ddarparu amgylchedd diogel. Mae'n helpu unigolyn i ddatblygu ymwybyddiaeth ginesthetig (y teimlad) o'r mudiant. Yn ddefnyddiol yn gynnar yn y dysgu pan fydd athro/hyfforddwr yn gallu gosod safleoedd aelodau/rhannau corff y dysgwr e.e. safle cywir y llaw ar y bêl wrth saethu mewn pêl-rwyd.	Ni ddylid ei orddefnyddio gan y gall perfformwyr fynd yn ddibynnol ar y cynnal. Gall roi 'teimlad' afrealistig o'r mudiant i'r dysgwyr e.e. dydyn nhw ddim yn cymryd pwysau llawn eu cyrff ac felly gallan nhw fethu pan dynnir ymaith y cyfarwyddyd llaw/mecanyddol.

SUT A PHRYD Y DEFNYDDIR MATHAU GWAHANOL O GYFARWYDDYD:

MATH O GYFARWYDDYD	SUT A PHRYD Y CAIFF EI DDEFNYDDIO
GWELEDOL	Yn effeithiol iawn yng nghyfnod gwybyddol dysgu ond yn ddefnyddiol ym mhob cyfnod. Wrth ddefnyddio fideo yn y cyfnodau cysylltiadol ac ymreolaethol gellir ei arafu i amlygu manylion e.e. edrych ar gamau gwahanol llofnaid gymnasteg.
GEIRIOL	Dylai esboniadau fod yn fyr a phwrpasol yn enwedig yn ystod cyfnod gwybyddol dysgu oherwydd gallu cyfyngedig i brosesu gwybodaeth. Mae'n fwy defnyddiol yng nghyfnodau diweddarach dysgu pan fydd y gallu i roi sylw yn fwy.
LLAW/MECANYDDOL	Yn ddefnyddiol iawn yng nghyfnod gwybyddol dysgu, i helpu'r dysgwr i brofi 'teimlad' y symudiad. Mae gymnasteg yn defnyddio llawer o gyfarwyddyd llaw wrth ddysgu symudiadau anoddach e.e. cynnal gymnastwr sy'n dysgu perfformio fflic-fflac. Mewn rhai gweithgareddau defnyddir cyfarwyddyd llaw / mecanyddol gan berfformwyr mwy profiadol oherwydd materion diogelwch e.e. dringo creigiau.

Awgrymiadau:

Cofiwch gysylltu â chyfnodau dysgu.



Cwestiynau ar arddull cwestiwn arholiad

1. Sut y gallai'r dulliau cyfarwyddyd sy'n cael eu rhoi gan athro neu hyfforddwr(aig) amrywio pan fydd unigolyn yn:

- (i) y cyfnod gwybyddol (*cognitive*) o ddysgu;
- (ii) y cyfnod ymreolaethol (*autonomous*) o ddysgu?

[4]

Atebion